# Lleoli, monitro a chynnal casglwyr silod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â lleoli, monitro a chynnal casglwyr silod ar gyfer casglu silod cregynbysgod, (diffinnir "silod" fel cregynbysgod ifanc a had cregynbysgod). Mae'n ymwneud â'r gwaith sydd yn gysylltiedig â lleoli, monitro a chynnal casglwyr silod cregynbysgod. Mae'n gofyn bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn lleoli, monitro a chynnal casglwyr silod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud gwaith yn ddiogel yn unol â'r gofynion perthnasol iechyd a diogelwch
2. gosod cyfarpar casglu silod yn barod ar gyfer ei leoli
3. lleoli cyfarpar casglu silod mewn lleoliadau penodedig, i gynyddu faint o silod sydd yn cael eu casglu
4. monitro ac adrodd am gwymp silod
5. cynnal cyfarpar casglu silod i gynyddu faint o rywogaethau o silod cregynbysgod sydd yn cael eu casglu
6. cynnal lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch
7. darparu gwybodaeth i gadw cofnodion o weithgareddau casglu silod yn unol â'r gofynion cyfreithiol a gofynion y safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â gweithrediadau casglu silod
2.
cyfnodau bywyd cynnar cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio
3. anghenion datblygu silod
4. swyddogaeth a strwythur cyfarpar casglu silod
5. sut i adnabod silod **rhywogaethau cregynbysgod** sydd yn cael eu targedu a rhai **nad ydynt yn cael eu targedu**
6. sut i adnabod **rhywogaethau ysglyfaethwyr** a **rhywogaethau lleuog**
7. y lleoliadau lle mae **cwymp silod** yn debygol o ddigwydd
8. pam y mae'n bwysig cynnal cyflwr cyfarpar casglu silod wrth gasglu silod
9. gweithdrefnau'r safle ar gyfer cynnal hylendid a bioddiogelwch effeithiol
10. y ffordd y mae amodau amgylcheddol yn dylanwadu ar atgynhyrchu cregynbysgod a chwymp silod
11. gwaith clymau a rhaff sylfaenol casglu silod
12. y gofynion cyfreithiol â'r gofynion y safle ar gyfer cadw cofnodion o weithgareddau casglu silod

## Cwmpas/Ystod

**monitro ac adrodd** ar gwymp silod o ran:

1. dwysedd silod targed
2. presenoldeb rhywogaethau ysglyfaethwyr
3. presenoldeb rhywogaethau lleuog
4. presenoldeb rhywogaethau cregynbysgod nad ydynt yn cael eu targedu

## Geirfa

**silod** – cregynbysgod ifanc a had cregynbysgod

**rhywogaethau ysglyfaethwyr** – e.e sêr môr, crancod

**rhywogaethau lleuog –** anifeiliaid a phlanhigion sydd yn cysylltu eu hunain i gregynbysgod, gan gyfyngu ar allu'r cregynbysgod i weithredu ac effeithio ar eu derbynioldeb yn y farchnad

**rhywogaethau o gregynbysgod nad ydynt yn cael eu targedu** – rhywogaethau cregynbysgod nad ydych yn ceisio eu casglu

**cwymp silod** – pan fydd cregynbysgod yn dod i orffwys y tu hwnt i'w cyfnod nofio rhydd planctonig

Lleoli, monitro a chynnal casglwyr silod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu9 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | cregynbysgod; silod |